**Rhif: WG39289**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Diwygiad i'r Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill

**Ymgynghoriad ar offeryn statudol diwygio arfaethedig i gywiro hepgoriad yn Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007.**

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Rhagfyr 2019

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau ar gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth ddomestig, ar ffurf Offeryn Statudol diwygio, er mwyn diwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007 i gynnwys darpariaeth ar gyfer Erthygl 8 ar wahardd sylweddau a restrir yn Rhan A neu B o Atodiad III o Reoliad (CE) Rhif 1925/2006, neu gyfyngu arnynt. Gofynnwn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar briodoldeb ymestyn y troseddau a'r cosbau yn Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007 i gwmpasu Rhan A a B o Atodiad III.

**Sut i ymateb**

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 23 Rhagfyr 2019 drwy ddefnyddio un o'r ffyrdd a ganlyn:

- **Llenwi'r ffurflen ar-lein**
- **Ar e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.**

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

**Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol**
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ffforddofyw@llyw.cymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 5 |
| **CYFUNDREFN ORFODI** | 6 |
| **Ymadael â'r UE** | 6 |
| **Cwestiynau'r ymgynghoriad** | 7 |

**CRYNODEB**

1. Mae Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007 ("Rheoliadau Cymru") yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (CE) Rhif 1925/2006 ar ychwanegu fitaminau, mwynau a sylweddau eraill penodol i fwyd, "Rheoliad y CE".

2. Mae Erthygl 8 ac Atodiad III Rheoliad y CE yn darparu ar gyfer sylweddau a allai achosi perygl posibl i ddefnyddwyr. Efallai fod sylweddau o’r fath:

   - Yn cael eu gwahardd o dan Ran A o Atodiad III
   - Yn cael eu cyfyngu ag amodau defnyddio penodol o dan Ran B o Atodiad III
   - Yn ddarostyngedig i fesurau craffu yn amodol ar dystiolaeth o ddiogelwch o dan Ran C o Atodiad III.

3. Tra y byddwn yn aros yn yr UE, mae'r darpariaethau hyn yn gymwys yn uniongyrchol i'r DU fel Aelod-wladwriaeth o'r UE. Ni fydd effaith ymadael â'r UE yn effeithio ar y rheoliadau diwygio arfaethedig gan y bydd darpariaethau Rheoliad y CE yn parhau i fod yn gymwys ledled y DU ar ôl y diwrnod ymadael. O’r herwydd, mae’n ofynnol i ddarpariaethau gorfodi gael eu gwneud mewn deddfwriaeth ddomestig.

4. Ar hyn o bryd, nid yw darpariaethau Erthygl 8 ac Atodiad III wedi'u cynnwys yn adran tramgwyddau a chosbau Rheoliadau Cymru. Golyga hyn na fydd darpariaethau gorfodi ar gael mewn cyfraith ddomestig pe bai gweithredwr busnes bwyd yn defnyddio sylwedd gwaharddedig a restrir yn Rhan A o Atodiad III neu pe bai’n peidio â chydymffurfio â'r amodau defnyddio ar gyfer sylweddau a restrir yn Rhan B o Atodiad III.

5. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cynnig i ddiwygio Rheoliadau Cymru i gynnwys darpariaeth ar gyfer Erthygl 8 ar wahardd sylweddau a restrir yn Rhan A neu B o Atodiad III, neu gyfyngu arnynt. Golyga hyn y byddai'n drosedd gosbadwy pe bai gweithredwr busnes bwyd yn defnyddio sylwedd gwaharddedig a restrir yn Rhan A neu pe bai’n peidio â chydymffurfio â'r amodau defnyddio ar gyfer sylweddau a restrir yn Rhan B.

6. Mae hwn yn ymgynghoriad technegol cyfyngedig.

7. Bydd ymgyngoriadau tebyg yn cael eu cynnal yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## CYFUNDREFN ORFODI

8. Mae Rheoliadau Ewropeaidd, fel y rheoliad hwn, yn gymwys yn uniongyrchol yng nghyfraith y DU ac nid yw’n ofynnol iddynt gael eu trosi i ddeddfwriaeth y DU. Er hynny, rhaid inni bennu tramgwyddau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad a darpariaethau gorfodi a chosbau sy'n ymwneud â'r tramgwyddau hyn fel y gellir gorfodi'r Rheoliad yn y DU. Ni wnaeth Rheoliadau Cymru lwyddo i gynnwys darpariaeth ar gyfer Erthygl 8 ac Atodiad III o Reoliad y CE. Bydd y rheoliadau diwygio arfaethedig yn ymestyn y gyfundrefn orfodi bresennol i gynnwys darpariaethau Erthygl 8 a Rhan A a B o Atodiad III. Dyma'r gyfundrefn orfodi bresennol:

   *"mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau'r Rheoliad CE a bennir ym mharagraff (2) neu'n methu â chydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd ac yn agored —*
   *(a) o'i gollfarnu ar dditiad i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu i'r ddau;*
   *(b) o'i gollfarnu'n ddiannod i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na thri mis, neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu i'r ddau."*

## YMADAEL Â'R UE

9. Ni fydd amseriad nac effaith ymadael â'r UE yn effeithio ar y rheoliadau diwygio arfaethedig. Mae Rheoliad y CE ar hyn o bryd yn gymwys yn uniongyrchol ym mhob aelod-wladwriaeth, gan gynnwys y DU, a bydd holl ddarpariaethau Rheoliad y CE yn parhau i fod yn gymwys ar ôl y diwrnod ymadael. Felly, byddai'r darpariaethau gorfodi y mae’n ofynnol iddynt gael eu gwneud mewn deddfwriaeth ddomestig yr un fath.

## Cwestiynau

1. **A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007 i gynnwys darpariaeth, o dan y pennawd tramgwyddau a chosbau, ar gyfer Erthygl 8 a Rhan A a B o Atodiad III i Reoliad Ewropeaidd 2006/125/CE?**

   Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod
   Rhowch reswm dros eich ymateb

2. **A ydych yn cytuno y dylai'r gyfundrefn orfodi bresennol, fel yr amlinellir hi uchod, gael ei hymestyn i'r ddarpariaeth hon?**

   Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod
   Rhowch reswm dros eich ymateb

3. **A oes gennych gynnig amgen?**
   Os felly, rhowch fanylion a rhesymau dros eich awgrym

4. **Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

   Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

5. **Eglurwch hefyd sut rydych chi’n credu y gallai’r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

6. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

# Diwygiad i'r Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill

## Ffurflen Ymateb

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylid anfon ymatebion erbyn 23 Rhagfyr 2019;

**Y Gangen Byw’n Iach ac Egnïol**
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu llenwch y ffurflen yn electronig a'i hanfon i: **Lifestyles@llyw.cymru**

1. **A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007 i gynnwys darpariaeth, o dan y pennawd tramgwyddau a chosbau, ar gyfer Erthygl 8 a Rhan A a B o Atodiad III i Reoliad Ewropeaidd 2006/125/CE?**

   Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod
   Rhowch reswm dros eich ymateb

2. **A ydych yn cytuno y dylai'r gyfundrefn orfodi bresennol, fel yr amlinellir hi uchod, gael ei hymestyn i'r ddarpariaeth hon?**

   Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod
   Rhowch reswm dros eich ymateb

3. **A oes gennych gynnig amgen?**
   Os felly, rhowch fanylion a rhesymau dros eich awgrym

4. **Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

   Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

5. **Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

6. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: